# Y CYNGOR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, YSTRAD MYNACH DDYDD MAWRTH 17EG EBRILL 2018 AM 6.30PM

---

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd J. Bevan - Maer
Y Cynghorydd M. Adams - Dirprwy Faer

Cynghorwyr:

Mrs E.M. Aldworth, A. Angel, P.J. Bevan, C. Bezzina, A. Collis, S. Cook, D. Cushing, C. Cuss, W. David, D.T. Davies, M. Davies, N. Dix, C. Elsbury, K. Etheridge, M. Evans, Mrs C. Forehead, Ms E. Forehead, A. Gair, Ms J. Gale, N. George, C. Gordon, R.W. Gough, D.T. Hardacre, L. Harding, D. Harse, D. Havard, A. Higgs, A. Hussey, G. Johnston, Mrs B.A. Jones, S. Kent, G. Kirby, Ms P. Leonard, C.P. Mann, Mrs P. Marsden, B. Miles, S. Morgan, Mrs G.D. Oliver, B. Owen, T. Parry, Mrs L. Phipps, D.V. Poole, D.W.R. Preece, Mrs D. Price, J. Pritchard, J.E. Roberts, R. Saralis, J. Scriven, G. Simmonds, J. Simmonds, S. Skivens, Mrs E. Stenner, J. Taylor, C. Thomas, R. Whiting, L.G. Whittle, T.J. Williams, W. Williams, B. Zaplatynski

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau Dros Dro), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol), L. Donovan (Pennaeth Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol Dros Dro), R. Hartshorn (Pennaeth Polisi a Diogelwch y Cyhoedd), S. Harris (Pennaeth Cyllid Corfforaethol Dros Dro), M. Lloyd (Pennaeth Gwasanaethau Peirianneg Dros Dro), D. Marr (Dirprwy Swyddog Monitro – Cyngor Caerdydd), L. Lane (Swyddog Monitro Dros Dro), C. Forbes-Thompson (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro) a R. Barrett (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor)

### 1. FFILMIO GWE-DDARLLEDU A THREFNIADAU PLEIDLEISIO

Atgoffodd y Prif Weithredwr Dros Dro y rheini a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffilmio a byddai ar gael yn gyhoeddus yn fyw ac yn yr archifau drwy wefan y Cyngor. Nododd y caiff penderfyniadau eu gwneud drwy godi llaw.

### 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gynghorwyr C. Andrews, L. Binding, K. Dawson, A. Farina-Childs, J.E. Fussell, M.P. James, V. James, L. Jeremiah, Mrs A. Leonard, J. Ridgewell, Mrs M.E. Sargent, ac A. Whitcombe.

## 3. CYHOEDDIADAU'R MAER

Nodwyd mai hwn oedd cyfarfod olaf y Cyngor y byddai'r Cynghorydd J. Bevan yn ei gadeirio cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a chyfeiriodd at ei ymrwymiadau a'i ddyletswyddau Maerol dros yr wythnosau nesaf.

## 4. DEISEB

Cyflwynodd y Cynghorydd Mrs G. D Oliver ddeiseb i'r Maer ar ran trigolion lleol Pontlotyn, a oedd yn gofyn am gysgod ar gyfer y llwybr cerdded yn Ysgol Idris Davies 3-18. Nododd y Maer y caiff ei gyfeirio at y gyfarwyddiaeth briodol i'w ystyried.

## 5. CYFLWYNO GWOBRAU

Nid oedd unrhyw wobrau i'w cyflwyno ar yr achlysur hwn.

## 6. DATGAN BUDDIANNAU

Wrth gyfeirio at Eitem Rhif 10 o'r Agenda, (Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2018/19), esboniodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod buddiant personol yn berthnasol i bob Aelod ar gyfer yr eitem hon, ond y gallent ystyried yr adroddiad drwy eithriad penodol yng Nghod Ymddygiad Aelodau sy'n ymwneud â thaliadau (yn ôl Adran 12 paragraff (b)(iv)).

Nodwyd y byddai gofyn i Mrs C. Harrhy (Prif Weithredwr Dros Dro) a Mr M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau Dros Dro) ddatgan buddiant personol a rhagfarnus ar gyfer Eitem Rhif 12 o'r Agenda (Trefniadau Contract y Prif Weithredwr Dros Dro) a gadael y cyfarfod pan fydd yr eitem yn cael ei ystyried.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr Dros Dro at Eitem 13 o'r Agenda (Ymchwiliad Mewnol o Uwch Swyddog – Darpariaeth Ariannol Ychwanegol) ac atgoffodd yr Aelodau na ddylid cynnal unrhyw drafodaeth mewn perthynas â'r ymchwiliad mewnol sy'n mynd rhagddo y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad. Esboniodd hefyd fod yr adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth ddarpariaeth ariannol ychwanegol ar gyfer costau cyfreithiol (ac nid oedd yn mynd i'r afael â'r ymchwiliad ei hun) ac nid oedd angen i Aelodau na Swyddogion ddatgan buddiant rhagfarnus a gadael y cyfarfod ar y sail honno. Fodd bynnag, roedd yn fater i Aelodau unigol p'un a oeddent am ddatgan buddiant personol a/neu ragfarnus.

Gwnaeth y Cynghorwyr M. Adams, A. Angel, D.T. Davies, N. George, C. Gordon, J. Simmonds a J. Taylor ddatgan buddiant ar gyfer Eitem 13 o'r Agenda (Ymchwiliad Mewnol o Uwch Swyddog – Darpariaeth Ariannol Ychwanegol). Caiff manylion eu cofnodi â'r eitem berthnasol.

## 7. CYNGOR ARBENNIG – 22AIN CHWEFROR 2018

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo'r cofnodion canlynol fel cofnod cywir a'u bod yn cael eu llofnodi gan y Maer.

Cyfarfod y Cyngor Arbennig a gynhaliwyd ar 22ain Chwefror 2018 (rhifau cofnodion 1-6).

**8. CYNGOR – 6ED MAWRTH 2018**

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo'r cofnodion canlynol fel cofnod cywir a'u bod yn cael eu llofnodi gan y Maer.

Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 6ed Mawrth 2018 (rhifau cofnodion 1-12).

**ADRODDIADAU A ATGYFEIRIWYD O'R CABINET**

Ystyriwyd yr adroddiadau canlynol a atgyfeiriwyd o'r Cabinet.

**9. COMISIYNU INTEGREDIG A CHYTUNDEB ADRAN 33 AR GYFER CARTREFI GOFAL I BOBL HYN YN RHANBARTH GWENT (CRONFEYDD CYFUN)**

Rhoddodd yr adroddiad, a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 28ain Mawrth 2018 ac a gymeradwywyd o ganlyniad i hynny, y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad y trefniadau i gyfuno cronfeydd ar gyfer trefniadau cartrefi gofal rhwng y 5 awdurdod lleol yn Rhanbarth Gwent. Mae hyn wedi codi o Ran 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) sy'n gosod gofyniad statudol ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth ac ar y cyd.

Roedd yr adroddiad yn argymell i'r Cabinet y dylid sefydlu cyllideb gyfun ranbarthol o ran arfer swyddogaethau llety cartref gofal rhwng Cyngor Sir Caerffili, Awdurdodau Lleol eraill Gwent (Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAB), a gaiff ei goruchwylio gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh). Gwnaeth hefyd amlinellu'r cynnydd a wnaed yn y gwaith o ddatblygu elfennau allweddol eraill sy'n ofynnol gan ganllawiau Llywodraeth Cymru o ran cefnogi trefniadau cyllideb gyfun, sef contractau cyffredin a datblygu dull integredig o gomisiynu, ac yn rhanbarth Gwent.

Cyfeiriwyd y Cyngor at adroddiad cwmpasu y Swyddog a oedd yn esbonio, ar ôl cael cymeradwyaeth y Cabinet, y ceisiwyd awdurdod i ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngor er mwyn i'r pwerau dirprwyedig a roddir i Aelod y Cabinet dros Ofal Cymdeithasol a Llesiant ddod i rym, fel y nodir ym mharagraff 1.1 (iii) o argymhellion yr adroddiad.

Yn ystod y drafodaeth, cafwyd ymholiad ynghylch yr incwm a gafwyd gan gyfraniadau cleientiaid a phartneriaid mewn perthynas â chyllidebau gofal cartref. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai mai Cyngor Caerffili sy'n cael yr incwm, sydd tua £4.5 miliwn y flwyddyn, a bod y costau ar gyfer gwasanaethau o'r fath union yr un peth ledled pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

Ar ôl ystyried a thrafod, cafodd ei gynnig a'i eilio y byddai'r argymhelliad gan y Cabinet, a nodir yn adroddiad cwmpasu y Swyddog, yn cael ei gymeradwyo. Drwy godi dwylo, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, dylai'r Prif Gyfreithiwr gael awdurdod dirprwyedig i wneud y newidiadau angenrheidiol i Gyfansoddiad y Cyngor er mwyn i'r pwerau dirprwyedig a roddir i Aelod y Cabinet dros Ofal Cymdeithasol a Llesiant ddod i rym, fel aelod Cyngor Sir Caerffili o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, o ran arfer swyddogaethau llety cartref gofal, a bod angen ystyried unrhyw drefniadau penodol y mae angen eu rhoi ar waith er mwyn cyflawni dyletswyddau statudol ar lefel leol a rhanbarthol.

## 10. CYNLLUN CORFFORAETHOL GAN GYNNWYS AMCANION LLESIANT 2018-2023

Ceisiodd yr adroddiad, a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 11 Ebrill 2018 ac a gymeradwywyd o ganlyniad i hynny, gymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer Cynllun Corfforaethol yr Awdurdod Lleol a'i Amcanion Llesiant ar gyfer 2018-2023.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r gofyniad ym Mesur Llywodraeth Leol 2009 i bob awdurdod lleol yng Nghymru bennu a chyhoeddi cyfres o flaenoriaethau o'r enw Amcanion Gwella cyn gynted ag y bo'n 'rhesymol ymarferol' yn y flwyddyn ariannol newydd. Fodd bynnag, mae cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn gosod gofyniad cyfreithiol ar 'gyrff cyhoeddus' i bennu a chyhoeddi Amcanion Llesiant. Gan fod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng y ddau ddarn o ddeddfwriaeth, mae'r awdurdodau lleol yn ymdrin â'r ddau ofyniad fel un canlyniad i gyhoeddi un gyfres o Amcanion Llesiant. Mae'r dull hwn wedi'i gymeradwyo gan Swyddfa Archwilio Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Mae'r Cynllun yn cyflwyno cyfres newydd o 6 Amcan Llesiant yr Awdurdod Lleol a fydd ar waith am bum mlynedd rhwng 2018 a 2023 ac mae'n nodi sut y caiff y rhain eu mesur a'u cyflawni. O ystyried canllawiau statudol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), bwriedir i'r Cyngor adolygu'r Amcanion Llesiant bob blwyddyn yn unol â llunio adroddiadau ar gynnydd ei berfformiad i'r cyhoedd. Mae'r Cynllun hefyd yn cyflwyno 7 'Ymrwymiad Cabinet' ac 'Egwyddorion Cynllun Ariannol Tymor Canolig'. Roedd rhagor o fanylion wedi'u cynnwys yng Nghynllun Corfforaethol 2018-2023 a oedd wedi'i atodi i'r adroddiad.

Nodwyd bod y Cabinet wedi cymeradwyo'r Cynllun Corfforaethol, yn amodol ar ychwanegiad i Amcan Llesiant 5 (Creu bwrdeistref sirol sy'n cefnogi ffordd iach o fyw) i gynnwys y geiriad "yn unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015."

Diolchodd Aelodau i'r Swyddogion hynny a oedd yn rhan o'r gwaith o baratoi'r Cynllun Corfforaethol a chafodd ei gadw ar y cofnod. Gwnaethant hefyd gydnabod manylder y ddogfen a'r gwaith helaeth a oedd yn rhan o drosi Amcanion Gwella'r Cyngor yn strategaeth tymor hwy.

Cafwyd trafodaeth fanwl ar gynnwys y Cynllun Corfforaethol a'r camau gweithredu arfaethedig i gyflawni'r 6 Amcan Llesiant. Cyfeiriodd Aelod at Amcan Llesiant 1 (gwella cyfleoedd addysg i bawb) a'r cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen Band B, Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, a gofynnodd p'un a gaiff hwn ei ddyfarnu os na all awdurdodau lleol gyflawni nodau'r rhaglen. Cadarnhaodd Aelod y Cabinet dros Addysg a Chyflawniad y byddai'n holi ynghylch y mater, ond bod cynigion cyllido yn cael eu cyflwyno drwy achos busnes a'u hystyried fesul achos gan Lywodraeth Cymru. Gofynnodd Aelod sut y caiff nodau'r Amcan eu cyflawni o ystyried bod gan ysgolion gyllideb lai. Gofynnodd Aelod y Cabinet i fanylion y gostyngiadau hyn gael eu hanfon ati fel y gallai drafod y mater ymhellach â'r Aelod hwnnw.

Holodd Aelod sut y caiff y gweledigaethau Amcan Llesiant 5 (creu bwrdeistref sirol sy'n cefnogi ffordd iach o fyw) eu mesur a gofynnodd p'un a ystyriwyd y mater o leihau allyriadau carbon monocsid drwy osod cyfyngiadau cyflymder o 20mya ar ardaoedd trefol. Esboniodd Pennaeth Polisi a Diogelu'r Cyhoedd ei bod yn anodd mesur gwelliannau i iechyd oherwydd newidiadau rhwng y cenedlaethau, ond y gellir monitro hyn drwy weithredoedd megis mwy o gyfranogiad mewn chwaraeon, gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored a'r rhaglen ysgolion iach. Cadarnhawyd hefyd nad oedd lleihau carbon monocsid drwy osod cyfyngiadau cyflymder o 20mya yn faes a ystyrir yn rhan o gylch gwaith yr Amcan Llesiant penodol hwn.

Cafwyd sawl ymholiad ynghylch Amcan Llesiant 4 (hybu system drafnidiaeth fodern, integredig a chynaliadwy sy'n gwella cyfleoedd, yn hybu ffyniant ac yn lleihau effeithiau andwyol ar yr amgylchedd). Gofynnodd Aelod am eglurhad ar y ffynhonnell data ar gyfer nifer y teithiau y mae cymudwyr yn eu cymryd bob dydd y tu mewn i'r fwrdeistref a thu hwnt iddi, a

gofynnodd a fyddai'n bosibl mynd ati i annog busnesau i dendro ar gyfer llwybrau cysylltiol newydd. Cyfeiriwyd yn benodol at rôl a chyfraniad cwmnïau bws lleol at y gwaith o ddarparu'r cynllun Metro, a hefyd y gwaith posibl o adfer llinell rheilffordd Cwmbargoed a gorsaf drenau newydd i Nelson. Cyfeiriodd Aelod at y mater o leihau nifer y cynigwyr ar gyfer masnachfraint rheilffordd Cymru a'r Gororau y disgwylir ei hadnewyddu yn 2018 a gofynnodd p'un a oedd Llywodraeth Cymru yn hyderus y byddai'r tender llwyddiannus yn gallu darparu gwasanaethau'r fasnachfraint a'r elfennau perthnasol o'r Metro. Cyfeiriwyd hefyd at y camau a gymerir i gyflawni'r Amcan Llesiant hwn a'r amserlenni ar gyfer pryd y byddai trigolion lleol yn dechrau sylwi ar yr effaith weledol.

Esboniodd y Prif Weithredwr Dros Dro fod y ffigurau cymudwyr wedi'u casglu gan y Comisiwn Twf a Chystadleuaeth Annibynnol ac maent wedi'u cynnwys mewn adroddiadau a gyflwynwyd i'r Cyngor yn flaenorol. Cadarnhaodd fod Llywodraeth Cymru yn ystyried rôl cwmnïau trafnidiaeth lleol yn y gwaith o ddarparu'r Metro a bydd yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion y rhanbarth a'r rheolaeth a'r cymorth sydd eu hangen yn hyn o beth. Atgoffwyd Aelodau bod gan bob un o'r 10 o awdurdodau lleol y Fargen Ddinesig gynrychiolydd yn yr Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol a fydd yn cyflwyno'r anghenion trafnidiaeth ar gyfer eu bwrdeistref sirol. O ran llinell Cwmbargoed, esboniwyd bod y Cyngor yn ystyried lleoliad ar gyfer safle rheilffordd Nelson ar hyn o bryd. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Dros Dro hefyd fod Llywodraeth Cymru yn gyfforddus â'r tendrau sy'n weddill ar gyfer masnachfraint rheilffordd Cymru a'r Gororau a disgwylir i'r cynigiwr a ffefrir gael ei gyhoeddi yn y dyfodol agos.

Holodd sawl Aelod ynghylch datblygiad a dichonoldeb llinellau rheilffyrdd unigol y cyfeiriwyd atynt yn y Cynllun Corfforaethol, gan gynnwys cysylltiad Casnewydd i Lynebwy a chysylltiad Caerffili i Gasnewydd. Cadarnhawyd bod y cyntaf wedi'i gynnwys yn y Cynllun Metro ond nid oes unrhyw gadarnhad o ran pryd y caiff hwn ei ddarparu, a bod astudiaeth SEWTA wedi amlinellu'r potensial ar gyfer y llall, ond bod y prosiect hirdymor hwn yn dibynnu ar ffactorau megis argaeledd tir a ph'un a ydyw yn cyd-fynd â dull trafnidiaeth rheilffordd Llywodraeth Cymru. Cyfeiriwyd hefyd at raddfa'r buddsoddiad ar gyfer y llinell hon a chadarnhawyd bod y cynllun yn cyd-fynd â nodau'r Metro o ran lleihau llygredd a thagfeydd.

Awgrymodd Aelod y byddai'n ddefnyddiol cynnwys y cynnydd a wnaed eisoes ar yr Amcanion yn y Cynllun Corfforaethol. O ran Amcan Llesiant 2 (galluogi cyflogaeth), holodd p'un a oedd sôn am gynlluniau i adeiladu mwy o unedau busnes er mwyn gwella cyfraddau swyddi a hybu cyfleoedd cyflogaeth. Holodd yr Aelod ynghylch manylion y cymorth i wella amodau tai fel y cyfeirir atynt yn Amcan Llesiant 3 (mynd i'r afael ag argaeledd, amodau a chynaliadwyedd cartrefi ledled y fwrdeistref sirol a rhoi cyngor a chymorth er mwyn helpu i wella llesiant pobl) a mynegodd yr angen i alluogi prosesau i adfer cartrefi gwag hirdymor fel y gellir gwneud defnydd ohonynt. Tynnodd sylw hefyd at yr angen am berchenogaeth o'r cynlluniau trafnidiaeth Metro unigol er mwyn cyflawni'r nodau hyn, yr angen i gydweithio ac i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru yn hyn o beth. Cynigodd anfon sylwadau ychwanegol ar y Cynllun Corfforaethol ymlaen i'r Swyddogion perthnasol ar ôl y cyfarfod.

Cadarnhaodd y Pennaeth Polisi a Diogelwch y Cyhoedd y cyflwynwyd adroddiad ar y cyflawniadau yn erbyn yr Amcanion Gwella blaenorol i'r Pwyllgorau Craffu perthnasol ddwywaith y flwyddyn ac y bydd yr adolygiad blynyddol o'r Cynllun Corfforaethol yn rhoi'r cyfle i'r Cyngor weld sut mae'n datblygu a mesur sut y caiff perfformiad ei gyflawni yn erbyn yr Amcanion hyn. Esboniodd fod yr Amcanion Llesiant yn cyfrannu at y Nodau Llesiant a bennir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn canolbwyntio ar atebion hirdymor gyda phwyslais ar atal.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, cafodd ei gynnig a'i eilio y caiff yr argymhelliad yn yr adroddiad ei gymeradwyo, yn amodol ar yr ychwanegiad uchod o ran Amcan Llesiant 5. Drwy godi dwylo, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, yn amodol ar y diwygiad i Amcan Llesiant 5 (i gynnwys "yn unol

â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015"), y caiff y Cynllun Corfforaethol gydag Amcanion Llesiant 2018-2023, wedi'i atodi i'r adroddiad, ei gymeradwyo.

**ADRODDIADAU SWYDDOGION**

Ystyriwyd yr adroddiadau canlynol.

**11. RHOI IS-DDEDDFAU DRAENIO TIR LLYWODRAETH CYMRU AR WAITH**

Ystyriwyd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd ar 27ain Mawrth 2018 a cheisiodd gymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer rhoi Is-Ddeddfau Draenio Tir ar waith, fel y'u hargymhellir gan Llywodraeth Cymru.

Nodwyd, o dan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, y rhoddwyd pwerau a chyfrifoldebau ychwanegol i awdurdodau lleol ar gyfer rheoli llifogydd oherwydd dŵr wyneb, dŵr daear a chwrs dŵr cyffredin. Fel rhan o'r pwerau newydd, cafodd y cyfrifoldeb o gyflwyno caniatadau cwrs dŵr cyffredin eu trosglwyddo o Cyfoeth Naturiol Cymru i'r Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol yn 2012.

Ers ymgymryd â'r dyletswyddau a'r swyddogaethau hyn, mae awdurdodau lleol wedi nodi bod pwerau yn gyfyngedig o dan y ddeddfwriaeth gyfredol a gallai gweithgareddau penodol nad ydynt wedi eu caniatáu ar hyn o bryd gynyddu'r risg o lifogydd o bosibl, yn enwedig mewn ardaloedd mwy adeiledig. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r gyfres ddiwygiedig o'i Is-ddeddfau Cwrs Dŵr Cyffredin a lunnir o dan Adran 66 o Ddeddf Draenio Tir 1991, a fydd yn galluogi awdurdodau lleol i ategu pwerau sy'n bodoli eisoes a helpu gyda'u swyddogaethau rheoli draenio tir a risg llifogydd. Anogir pob awdurdod lleol i fabwysiadu'r is-ddeddfau model (wedi'u hatodi i'r adroddiad hwn) er mwyn sicrhau cysondeb ledled Cymru a chydymffurfio ag amcanion statudol.

Mynegodd Aelodau eu cefnogaeth ar gyfer yr Is-ddeddfau newydd fel ffordd o oresgyn y materion draenio a all godi yn ystod y gwaith o ddatblygu ystadau tai newydd.

Cafodd ei gynnig a'i eilio y caiff yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Drwy godi dwylo, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, y caiff yr Is-ddeddfau Draenio Tir a argymhellir gan Llywodraeth Cymru eu cymeradwyo.

**12. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2018/19**

Roedd yr adroddiad yn cynnwys manylion am benderfyniadau terfynol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â Chynghorwyr ac aelodau Cyfetholedig ar gyfer 2018/19 a cheisiodd benderfyniad gan y Cyngor ar agweddau penodol ar gynllun cydnabyddiaeth ariannol Aelodau ar gyfer 2018/19. Cafodd gopi o'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2018/19 ei atodi i adroddiad y Swyddogion.

Nododd Aelodau fod penderfyniadau'r Panel yn cynnwys cynnydd o 1.49% i gyflog sylfaenol Cynghorwyr ar gyfer 2018/19, sy'n cynrychioli cynnydd o £200 i gyflog sylfaenol cynghorwyr hyd at £13,600. Cynigodd y Panel hefyd i'r opsiwn blaenorol i bennu lefelau cyfnod gael ei ddileu ac mae wedi pennu'r cyflogau ar y lefel uwch flaenorol, yn cynnwys y cynnydd o £200 i'r cyflog sylfaenol. Felly, gan fod Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi penderfynu'n flaenorol

y byddai cyflogau'r uwch swyddogion yn cael eu pennu ar y band is, bydd cynnydd yn y gwariant ar gyfer cyflogau uwch swyddogion yn 2018/19. Cafodd manylion y rhain eu nodi ym mharagraff 4.5 o'r adroddiad.

Cafodd penderfyniadau'r Panel eu nodi yn ei adroddiad blynyddol ac roedd manylion y penderfyniadau allweddol nodedig wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog a gyflwynwyd i Aelodau. Nodwyd y daw'r penderfyniadau a'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad i rym ym mis Ebrill 2018, a gall Aelodau unigol neu Aelodau Cyfetholedig ddewis peidio â derbyn unrhyw ran o'r gydnabyddiaeth ariannol y maent yn gymwys i'w chael ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, drwy hysbysu'r Prif Weithredwr Dros Dro yn ysgrifenedig.

Cyfeiriwyd Aelodau i argymhellion yr adroddiad a oedd yn ceisio penderfyniad gan y Cyngor o ran lefel y Cyflog Dinesig ac agweddau eraill ar gynllun cydnabyddiaeth ariannol Aelodau, gan gynnwys hawliadau teithio a threuliau gofal, ynghyd â chymeradwyaeth ar gyfer penderfyniadau'r Panel.

Cafwyd trafodaeth ar argymhelliad 10.7 a chadarnhaodd Swyddogion y gellid sicrhau fod treuliau unigol ar gael drwy'r broses Ryddid Gwybodaeth os oedd y Cyngor yn bwriadu cymeradwy Opsiwn 2. Mynegodd rhai Aelodau yr angen am dryloywder o ran cyhoeddi costau gofal a hawliwyd gan aelodau unigol, tra cyfeiriodd eraill at sensitifrwydd y mater a bod angen ystyried preifatrwydd amgylchiadau unigol yr Aelodau.

Cafodd ei gynnig a'i eilio y caiff argymhelliad 10.2 ei gymeradwyo, ar yr amod y caiff penderfyniadau'r Panel gan gynnwys y cyflogau sylfaenol, cyflogau'r Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd, Aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion Pwyllgorau, ad-dalu costau gofal, lwfansau teithio a chynhaliaeth a thalu ffioedd i Aelodau Cyfetholedig, eu nodi a'u rhoi ar waith. Drwy godi dwylo (a nodi bod 6 yn erbyn ac 1 yn ymatal) cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif.

O ran argymhelliad 10.3, cafodd ei gynnig a'i eilio y caiff cyflog Lefel 2, fel y nodir ym mharagraff 4.6 o'r adroddiad, ei bennu fel y lefel briodol ar gyfer Cyflogau Dinesig ar gyfer 2018/19. Drwy godi dwylo (a nodi bod 3 yn erbyn gyda 4 yn ymatal) cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif.

O ran argymhelliad 10.4, cafodd ei gynnig a'i eilio y bydd y nifer uchaf o ddiwrnodau sy'n daladwy i Aelodau o'r Pwyllog Craffu Addysg am Oes, Aelodau Cyfetholedig (lleyg) o'r Pwyllgorau Safonau ac Archwilio, yn parhau i fod yn 10 diwrnod y flwyddyn, fel y nodir ym mharagraff 4.26 o'r adroddiad. Drwy godi dwylo (a nodi bod 4 yn ymatal) cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif.

O ran argymhelliad 10.5, cafodd ei gynnig a'i eilio y bydd y Swyddogion sydd wedi'u rhestru ym mharagraff 4.29 o'r adroddiad yn parhau i weithredu fel y 'swyddog priodol' ar gyfer Aelodau Cyfetholedig a nodir yn y paragraff hwnnw. Drwy godi dwylo (a nodi bod 4 yn ymatal) cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif.

O ran argymhelliad 10.6, cafodd ei gynnig a'i eilio na thelir unrhyw dâl lwfans ar gyfer hawliadau teithio ar gyfer teithiau a wnaed o fewn wardiau Aelodau, fel y nodir ym mharagraff 4.37. Drwy godi dwylo (a nodi bod 2 yn ymatal) cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif.

O ran argymhelliad 10.7, cafodd ei gynnig a'i eilio y caiff Opsiwn 2 ei gymeradwyo, hynny yw y bydd y Cyngor yn cyhoeddi cyfanswm y costau gofal a ad-dalwyd i Aelodau gan yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn ond i beidio â phriodoli'r rhain i unrhyw Aelod, nac enwi'r Aelod hwnnw. Drwy godi dwylo (a nodi bod 9 yn erbyn gyda 3 yn ymatal) cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif.

> Felly, PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn, y cafodd yr argymhellion a nodir uchod eu cymeradwyo.

## 13. Y DIWEDDARAF AR GYFANSODDIAD Y CYNGOR — CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR CRAFFU

Ystyriwyd yr adroddiad, a oedd yn gofyn i'r Cyngor nodi a chymeradwyo unrhyw newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor, sydd wedi'i atodi i'r adroddiad ac wedi'i farcio mewn testun italig, er mwyn galluogi i'r newidiadau i gylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu ddod i rym o ganlyniad i'r newidiadau dros dro i gyfrifoldebau'r Gyfarwyddiaeth. Gwnaeth yr adroddiad hefyd geisio cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer dirprwyo'r Swyddog Monitro Dros Dro er mwyn diwygio'r Cyfansoddiad i gynnwys y newidiadau a bennir yn yr atodiad.

Cafodd Cyfansoddiad y Cyngor ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor ym mis Mai 2002, ac mae'n pennu'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio, sut y caiff penderfyniadau eu gwneud a'r gweithdrefnau a gaiff eu dilyn er mwyn sicrhau bod y prosesau gwneud penderfyniadau yn effeithlon, tryloyw ac ar gael i'r bobl leol. Mae'r Cyfansoddiad yn 'ddogfen fyw' yn yr ystyr ei bod yn cael ei diweddaru a'i hadolygu'n gyson er mwyn adlewyrchu deddfwriaeth newydd y llywodraeth a gwelliannau a newidiadau i weithdrefnau a gafwyd yn sgil profiad.

Gofynnwyd i Aelodau nodi a chymeradwyo'r newidiadau, a oedd yn bennaf yn adlewyrchu'r newid i gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr ym maes Cymunedau a Thai, ac oherwydd hynny, yn cynnwys newidiadau i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Craffu Partneriaethau, y Pwyllgor Craffu Adfywio ac Amgylchedd a'r Pwyllgor Craffu Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, holodd Aelod p'un a oedd unrhyw gynlluniau i ddechrau gwe-ddarlledu trafodion y Pwyllgor Craffu, a chadarnhawyd y bydd y mater yn cael ei ystyried rywbryd yn y dyfodol. Mewn ymateb i arsylwadau Aelod, cadarnhawyd hefyd y caiff mân gyfeiriadau at ryw mewn swyddi Swyddogion allweddol yn y Cyfansoddiad eu diweddaru’n briodol.

Ar ôl ystyried yr adroddiad, cafodd ei gynnig a'i eilio y caiff yr argymhellion yn yr adroddiad eu cymeradwyo. Drwy godi dwylo, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

PENDERFYNWYD ar y canlynol am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn:-

(i) y caiff y newidiadau i gylch gorchwyl y Pwyllgorau Craffu, fel y nodir mewn testun italig a thrwm ar y detholiadau perthnasol i'r Cyfansoddiad sydd wedi'i atodi i'r adroddiad, eu nodi a'u cymeradwyo

(ii) y rhoddir awdurdod dirprwyedig i'r Swyddog Monitro Dros Dro i ddiwygio'r Cyfansoddiad er mwyn cynnwys y newidiadau a bennir yn atodiad yr adroddiad.

## 14. TREFNIADAU CONTRACT Y PRIF WEITHREDWR DROS DRO A PHARHAD TREFNIADAU RHEOLI MEWNOL

Gwnaeth Christina Harrhy a Mark S. Williams ddatgan buddiant (am eu bod yn destun yr adroddiad) a gwnaethant adael y cyfarfod pan gafodd yr eitem ei ystyried.

Cyflwynodd Dave Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol) yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth i ymestyn trefniant y contract ymhellach ar gyfer swydd y Prif Weithredwr Dros Dro er mwyn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol, ac i ddirprwyo'r dasg o ymestyn y trefniadau contract dros dro ar gyfer y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau.

Atgoffwyd Aelodau o'r trefniadau dros dro presennol sydd ar waith yn yr Awdurdod ers

gwahardd y Prif Weithredwr parhaol ym mis Mawrth 2013. Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor gael Pennaeth Gwasanaeth Taledig yn ei le, sydd wedi'i ddynodi i'r Prif Weithredwr. Yn dilyn penderfyniad y cyn Brif Weithredwr Dros Dro i beidio ag ymestyn ei gontract dros dro y tu hwnt i ddiwedd mis Rhagfyr 2017, croesawodd tri Chyfarwyddwr Corfforaethol y Cyngor fynegiadau o ddiddordeb i ymgymryd â'r swydd, ac ar 5 Rhagfyr 2017, cadarnhaodd y Cyngor fod Mrs Harrhy wedi'i phenodi dros dro i swydd Prif Weithredwr Dros Dro am gyfnod o chwe mis yn weithredol o fis Ionawr 2018. Felly, disgwylir i'r contract ddod i ben ar 30 Mehefin 2018.

Esboniwyd bod y Person Annibynnol Dynodedig, a benodwyd i gynnal ymchwiliad cynhwysfawr o'r honiadau sy'n ymwneud â'r Prif Weithredwr, wedi nodi ei bod yn debygol y bydd yn cymryd tan ddiwedd y flwyddyn galendr i gwblhau'r ymchwiliad. Gan fod yr Awdurdod wedi'i ymgysylltu â nifer o brosiectau ar hyn o bryd, gan gynnwys y Fargen Ddinesig, Ysgolion yr 21ain Ganfrig, y gwaith o reoli'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r agenda cydweithio, mae'r adroddiad yn gofyn i Aelodau gytuno ar ymestyn contract y Prif Weithredwr Dros Dro presennol i 30 Mehefin 2019 (a chaiff ei adolygu eto ar yr adeg honno) er mwyn darparu parhad cyson i'r sefydliad. Mae'r amserlen yn ystyried y cyfnod amcangyfrifedig ar gyfer yr ymchwiliad ac yn caniatáu i'r Cyngor ddatblygu argymhelliad y Person Annibynnol Dynodedig tra'n cynnal sefydlogrwydd i'r sefydliad.

Amlinellodd Mr Street y cyflog y cytunwyd arno a chyhoeddwyd y telerau a'r amodau yn Natganiad Polisi Cyflog y Cyngor a chadarnhaodd y rhoddwyd gwybod i Lywodraeth Cymru am y bwriad i ymestyn y contract. Esboniodd hefyd, o ganlyniad i'r ffaith bod Mrs Harrhy wedi'i phenodi i swydd Prif Weithredwr Dros Dro, y penodwyd rhywun dros dro i'w swydd barhaol (Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau). Felly, gofynnwyd i Aelodau ddirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr Dros Dro er mwyn ymestyn penodiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r ddau Ddirprwy Arweinydd. Nodwyd, pe byddai amgylchiadau'n newid, gellir adolygu'r ddau gontract dros dro yn gyflym.

Hysbyswyd Aelodau am y goblygiadau ariannol a'r cyllidebau refeniw a sefydlwyd ar gyfer swyddi'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau, ac ariennir deiliaid y swyddi sy'n cyflawni'r dyletswyddau hyn ar hyn o bryd gan y cyllidebau refeniw hyn.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, gwnaeth Aelodau sylwadau ar y cynnig i ymestyn cyfnod contract y Prif Weithredwr Dros Dro i fis Mehefin 2019, o ystyried dyddiad a ragwelir ar gyfer cwblhau ymchwiliad y Person Annibynnol Dynodedig, sef mis Rhagfyr 2018, a gwnaethant awgrymu y gellid ymestyn y contract i fis Rhagfyr 2018 yn lle hynny, gyda'r opsiwn i'w adolygu tua diwedd y flwyddyn honno. Atgoffwyd Aelodau o'r ddarpariaeth sydd yn ei lle y gellir ei defnyddio unrhyw bryd i adolygu'r trefniadau sydd ar waith .

Ar ôl ystyried yr adroddiad, cafodd ei gynnig a'i eilio y caiff yr argymhellion yn yr adroddiad eu cymeradwyo. Drwy godi dwylo (a nodi bod 2 yn erbyn gyda 4 yn ymatal) cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif.

PENDERFYNWYD ar y canlynol am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad:-

(i) caiff contract y Prif Weithredwr Dros Dro presennol ei ymestyn hyd at 30ain Mehefin 2019;

(ii) caiff y penderfyniad i ymestyn trefniadau contract dros dro y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr Dros Dro mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r ddau ddirprwy Arweinydd.

Gwnaeth Mrs Harrhy a Mr Williams ddychwelyd i'r cyfarfod ar ôl trafodaeth y Cyngor.

## 15. YMCHWILIAD MEWNOL O UWCH SWYDDOG – DARPARIAETH ARIANNOL YCHWANEGOL

Gwnaeth y Cynghorwyr M. Adams, A. Angel, D.T Davies, C. Gordon, J. Simmonds a J. Taylor ddatgan buddiant personol a rhagfarnus fel Aelodau o'r Pwyllgor Ymchwilio a Disgybl a gwnaethant adael y cyfarfod pan gafodd yr eitem hon ei hystyried.

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer darpariaethau ariannol ychwanegol mewn perthynas â'r ymchwiliad mewnol o Uwch Swyddog sy'n mynd rhagddo. Atgoffwyd Aelodau o'r trefniadau dros dro a oedd ar waith yn flaenorol yn yr Awdurdod a oedd yn deillio o'r ymchwiliad mewnol o dri Uwch Swyddog a'r costau cysylltiedig ychwanegol sydd wedi'u hariannu gan ddarpariaethau a sefydlwyd drwy ddefnyddio'r Gronfa Gyffredinol Wrth Gefn a gymeradwywyd gan y Cyngor.

Cymeradwywyd trefniadau setliad y ddau Uwch Swyddog yng nghyfarfod y Cyngor Arbennig ar 31ain Hydref 2017, ac roedd y setliadau hyn yn dwyn y materion i ben ar gyfer y ddau unigolyn hyn. Fodd bynnag, hysbyswyd y Cyngor y byddai angen cyflogi Person Annibynnol Dynodedig o ran yr honiadau y mae angen ymchwilio iddynt yn ffurfiol mewn perthynas â'r Uwch Swyddog arall.

Cymeradwyodd y Cyngor ddarpariaeth ariannol ychwanegol ar 21ain Tachwedd 2017 er mwyn talu costau'r ymchwiliad sy'n mynd rhagddo mewn perthynas â'r Uwch Swyddog arall a'r costau cyflogau parhaus mewn perthynas â'r swydd hon hyd at 30ain Mehefin 2018. Cafodd y costau amcangyfrifedig hyn o £340 mil eu gwrthbwyso'n rhannol gan falans o £190 mil a oedd yn weddill o ddarpariaethau a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Cyngor, gan arwain at ddarpariaeth ychwanegol o £150 mil yn cael ei chymeradwyo.

Mae Person Annibynnol Dynodedig bellach wedi'i gyflogi er mwyn cynnal ymchwiliad ffurfiol ac mae wedi nodi ei bod yn debygol y bydd yn cymryd tan ddiwedd y flwyddyn galendr i gwblhau'r broses. O ganlyniad, mae angen sefydlu darpariaeth ariannol ychwanegol o £94 mil i dalu costau cyflogau'r Uwch Swyddog am y cyfnod rhwng 1af Gorffennaf 2018 a 31ain Rhagfyr 2018. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y ddarpariaeth o £60k a gymeradwywyd yn flaenorol ar gyfer y Person Annibynnol Dynodedig yn ddigon. Fodd bynnag, yn seiliedig ar wariant gwirioneddol dros y misoedd diwethaf a'r balans sy'n weddill ar ddarpariaethau blaenorol, rhagwelir y bydd angen darpariaeth ychwanegol o £99 mil o ran costau cyfreithiol. Felly, ceisiwyd cymeradwyaeth ar gyfer darpariaeth ariannol ychwanegol o £193 mil i'w gyllido o Gronfa Tanwariant Wrth Gefn y Gwasanaethau Corfforaethol a Chronfa Wrth Gefn Cwnsleriaid fel y nodir yn yr adroddiad.

Mynegodd Aelodau eu rhwystredigaeth barhaus o ran hyd y broses a'r gost gynyddol i'r Awdurdod a'r trigolion lleol. Mewn ymateb i ymholiad yn ymwneud â chynnig darpariaethau ychwanegol posibl, esboniodd Swyddogion fod yr amcangyfrifon yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ac, yn unol â'r broses hyd yn hyn, caiff adroddiadau ychwanegol eu hystyried os bydd yr angen yn codi. Cadarnhawyd hefyd bod y costau cyfreithiol ar gyfer cyngor Cwnsler i'r Awdurdod. Gofynnwyd am eglurhad ar gyfrifiad y costau amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â'r Person Annibynnol Dynodedig ac esboniodd Swyddogion, er bod y swm diwygiedig wedi'i sefydlu ym mis Hydref 2017, mai dim ond yn ddiweddar roedd y Person Annibynnol Dynodedig wedi dechrau ei ymchwiliad ac felly dylai'r ddarpariaeth o £60 mil fod yn ddigon tan fis Rhagfyr 2018.

Ar ôl ystyried a thrafod, cafodd ei gynnig a'i eilio y caiff yr argymhelliad yn yr adroddiad ei gymeradwyo. Drwy godi dwylo (a nodi bod 14 yn erbyn gydag 1 yn ymatal) cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a nodwyd yn yr adroddiad, ac i sicrhau y caiff

digon o gyllid ei neilltuo i dalu costau posibl y broses ymchwilio sy'n mynd rhagddi, os na chaiff materion eu datrys erbyn 31ain Rhagfyr 2018, caiff darpariaeth ariannol ychwanegol o £193 mil ei ariannu o Gronfa Tanwariant Wrth Gefn y Gwasanaethau Corfforaethol (94 mil) a Chronfa Wrth Gefn Cwnseleriaid (99 mil) i dalu'r costau hyn.

## 16. CWESTIYNAU A DDERBYNNIR O DAN REOL GWEITHDREFN 10(2)

Ystyriwyd y Cwestiynau canlynol o dan Reol Gweithdrefn 10(2). Yn unol â'r diwygiadau i'r cyfansoddiad, darperir yr ymateb hefyd.

### (i) ADOLYGIAD O'R STRATEGAETH HAMDDEN

At Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth, y Cynghorydd Nigel George oddi wrth y Cynghorydd Kevin Etherbridge.

Gofyn i Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ar ôl darllen Blaenraglen Waith y Cabinet ar gyfer y cyfarfod a gynhelir ar 11eg Gorffennaf 2018 sy'n rhestru dyfodol Canolfan Hamdden Pontllanfraith yng nghyd-destun yr Arolwg Hamdden, a fyddai cystal â diffinio pa feini prawf, systemau sgorio, dulliau ymgynghori a ddefnyddir wrth werthuso pob safle mewn perthynas â'r Arolwg Hamdden sydd ar ddod ac i gadarnhau y caiff pob lleoliad statws cyfartal.

Hefyd, a fyddai cystal â chadarnhau'r amserlen a ragwelir yn hyn o beth a phryd y caiff y mater ei ddwyn gerbron Cyngor Llawn i'w drafod er budd bod yn agored a thryloyw.

**YMATEB GAN Y CYNGHORYDD NIGEL GEORGE, AELOD CABINET DROS WASANAETHAU CYMDOGAETH**

Bydd Aelodau'n ymwybodol, yn ystod eu cyfarfod ar 28ain Mawrth, gwnaeth y Cabinet benderfynu ystyried dyfodol Canolfan Hamdden Pontllanfraith yn ddiweddarach yn 2018, ar ôl i Strategaeth Chwaraeon a Hamdden 10 mlynedd yr Awdurdod gael ei fabwysiadu.

Gallaf gadarnhau y byddwn yn gofyn i'r Cabinet gytuno i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn ar y Strategaeth Chwaraeon a Hamdden ddrafft. Cynigir y bydd proses ymgynghori â'r cyhoedd am 10 wythnos o hyd a fydd yn cynnwys amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys ymgynghoriad uniongyrchol ag amrywiaeth o randdeiliaid, defnyddio ein gwefan, cyfryngau cymdeithasol a 'Newsline'.

Bydd digon o gyfle i ymatebwyr roi sylwadau ar y blaenoriaethau, y canlyniadau a'r camau gweithredu arfaethedig sydd wedi'u cynnwys yn y Strategaeth ddrafft.

Bydd pob Aelod yn cymryd rhan yn y broses, gan ddechrau gydag adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Adfywio a'r Amgylchedd ym mis Mehefin, a Seminar i Aelodau yn dilyn hynny, gyda phenderfyniad ar y Strategaeth derfynol yn cael ei gyflwyno gerbron y Cabinet yn ddiweddarach eleni, yn dilyn yr ymarfer ymgynghori.

### (ii) CYMERADWYAETH AR GYFER PROSIECTAU LEDLED BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI – DATGANIAD I'R WASG, DYDD GWENER 30AIN MAWRTH 2018

http://www.caerphilly.gov.uk/News/News-Bulletin/February-2018/Environmental-projects-given-green-light

http://www.caerphilly.gov.uk/News/News-Bulletin/September-2017/Communities-asked-to-%E2%80%98Shape-Your-Place%E2%80%99

At Aelod y Cabinet dros Gartrefi a Lleoedd y Cynghorydd Lisa Phipps oddi wrth y Cynghorydd Graham Simmonds.

1. O ystyried y datganiad i'r wasg uchod, sy'n honni bod prosiectau ledled CBS Caerffili wedi'u cymeradwyo, a all yr Aelod Cabinet ei gwneud hi'n glir pa gamau sydd wedi'u cymryd i esbonio i'r wasg nad yw CBS Caerffili ond yn cynnwys Cwm Rhymni, ond mae hefyd yn cynnwys hen ardal gyngor Etholaeth Islwyn?

2. A all yr Aelod Cabinet ei gwneud hi'n glir y prosiectau sydd wedi'u heitemeiddio yn Ardal Islwyn wedi'u nodi o dan raglen gwella'r amgylchedd SATC?

3. A gaiff y prosiectau y nodwyd y byddant yn elwa o'r deng miliwn o bunnoedd eu dyrannu'n gyfartal ar sail canran poblogaeth?

4. O ystyried y ffaith ddiamod bod safon yr amgylchedd yn elfen allweddol o SATC a bod y cyngor yn ymrwymedig i helpu i greu cymunedau y mae tenantiaid yn falch ohonynt ac yn awyddus i fyw ynddynt, a bod ymgysylltu â chymunedau ac asiantaethau partner yn hollbwysig o ran sicrhau bod prosiectau yn gynaliadwy ac yn diwallu anghenion pobl leol, a all trigolion Islwyn fod yn sicr y bydd prosiectau a gaiff eu hymrwymo i Islwyn yn unol â rhaglen gwella'r amgylchedd SATC, er budd cymunedau Islwyn?

**YMATEB GAN Y CYNGHORYDD LISA PHIPPS AELOD CABINET DROS GARTREFI A LLEOEDD**

**C1** Mewn ymateb i'r cwestiwn a ofynnwyd gan y Cynghorydd Simmonds, yn gyntaf, hoffwn gadarnhau bod rhaglen amlgylcheddol SATC yn elfen bwysig o raglen gyffredinol SATC sydd â'r nod o wella cyflwr ein cyflenwad o dai cyngor ledled y fwrdeistref sirol gyfan. O ganlyniad i hynny, nid yw'r swyddogion a'r aelodau sy'n ymwneud â'r rhaglen yn canolbwyntio ar hen gymoedd Islwyn a Rhymni. Fodd bynnag, maent yn canolbwyntio ar ddull cynhwysfawr, strategol a holistaidd o weithredu'r rhaglen sy'n mynd i'r afael â'r fwrdeistref sirol gyfan ac elfennau cysylltiedig Dwyrain Caerffili a Gorllewin Caerffili.

Mewn perthynas â'r datganiad i'r wasg y cyfeiriwyd ato, hoffem nodi bod y Cyngor wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg, fel un o nifer o ddatganiadau sydd wedi'u cyhoeddi mewn perthynas â rhaglen SATC. Er y derbynnir bod y datganiad y cyfeiriwyd ato yn canolbwyntio ar orllewin y fwrdeistref sirol, mae hyn am fod y prosiectau a oedd wedi'u cynnwys ond wedi'u cymeradwyo'n ddiweddar ac roedd hynny'n ffordd o roi adborth i'r gymuned. Mae datganiadau tebyg wedi'u gwneud sy'n cynnwys ardaloedd eraill o'r fwrdeistref sirol, gan y sefydlwyd y rhaglen amgylcheddol, o'r cychwyn cyntaf, fel dull bwrdeistref sirol cyfan o wella pob cymuned y mae tenantiaid y cyngor yn byw ynddynt. Rhoddwyd gwybod i bob Cynghorydd a darparwyd copi o'r rhaglen fis Hydref 2016, ac atodir copi er gwybodaeth. Cafodd y gyllideb ei dyrannu ar y sail hon, ac mae tri Swyddog yr Amgylchedd wedi'u cyflogi i ymgysylltu â chymunedau ledled y fwrdeistref sirol, ac felly, caiff pob cymuned gyfle i nodi prosiectau i'w hystyried.

**C2** Mae'r prosiectau canlynol wedi'u cyflwyno yng ngham cyntaf y rhaglen amgylcheddol a oedd yn ceisio canolbwyntio ar nodi mân waith o ganlyniad i'r ymgymghoriad yn y cymunedau canlynol:

**Treowen**
Arwydd anheddiad a 2 fainc – wedi'u cwblhau

**Cefn-y-pant**
Parcio ar Coedlan Ganolog, canol ac isaf – wedi'i gymeradwyo, ailosod meinciau a phaentio rheiliau uchder pen-glin wrth ymyl y siopau – wedi cwblhau tirlunio ardal Parc y Coetiroedd – bron wedi'i gwblhau

**Pentwyn-mawr**
Gosod tarmac ar ardaloedd buarth a gosod cwrb isel yn The Ranks - wedi'i gymeradwyo

**Crosskeys**
Parcio yn fflatiau Heol Rhisga – gyda EPG ar hyn o bryd i ystyried dichonoldeb a dyluniad

**Tŷ Sign**
Storfa biniau Clos y Clychau Aur – wedi'i gwblhau
Parc Sglefyrddio Tŷ Sign – ar fin cychwyn
Bocsys ffenestri Heol y Celyn – wedi'i gymeradwyo

**Ynys-ddu**
Parcio yng Nglos Islwyn – gyda EPG i ystyried dichonoldeb

**Coed Duon**
Parcio yng Nghoedlan Lewis Lewis – gyda EPG i ystyried dichonoldeb

**Pontllan-fraith**
Parcio yn Nhŷ Mynyddislwyn – gyda EPG i ystyried dichonoldeb

**Croespenmaen**
Parcio yng Nghlos Shelley – wedi'i gwblhau
Meinciau Tŷ Melin a chynwysyddion planhigion – wedi'i gymeradwyo

**Trinant**
Parcio yng Nghilgant y Dywysoges – wedi'i gymeradwyo
Arwyneb newydd i Lys Horeb – wedi'i gwblhau
Meinciau a chynwysyddion planhigion yn Llys Horeb– wedi'i gymeradwyo
Gosod ffensys cyswllt cadwyn newydd ger Llys Horeb – wedi'i gymeradwyo

**Maes-y-ffynnon**
Parcio yn Heol y Ddôl – wedi'i gymeradwyo

**Cefn Fforest**
Heol Waunborfa – Rheiliau, gosod bolardiau concrit newydd a 6 bin graean – yn mynd rhagddo
Gerddi’r Twyn - rheiliau wedi'u paentio a'r tir wedi'u braenaru mewn rhai ardaloedd, ystyried y posibilrwydd o osod concrit er mwyn eu cadw a'u cynnal yn y dyfodol - yn mynd rhagddo
Cynllun Tai Lloches Tŷ Bedwellte – parcio (gyda EPG ar hyn o bryd i ystyried dichonoldeb a dyluniad), Cynwysyddion Planhigion ac ati – yn mynd rhagddo
Stryd Bryngoleu, Cefn Fforest – rheiliau wedi'u paentio a'r gordyfiant wedi'i dorri – yn mynd rhagddo

**Fairview**
Grisiau Clos Aneurin – wedi'u hailadeiladu – wedi'i gwblhau

**Markham**
Rheiliau a Bolardiau Monmouth Walk wedi'u paentio ac wedi cael gwared ar yr ardal o ordyfiant - Wedi'i gwblhau
Gordyfiant Commin Close – wedi'i gwblhau
Trem y Mynydd – paentio'r holl folardiau a gosod concrit mewn rhai o'r ardaloedd glaswellt

**Trelyn**
Cwrt Gwent – gydag Ardal Dai i'w hystyried

**Trelyn Uchaf**
Pob Cwrt yn Nhrecelyn Uchaf - Marciau llinell ar gyfer y meysydd parcio, a thorri gordyfiant yn ôl.

**Pengam**
Gosod Bolardiau yng Nghlos Islwyn – wedi'i gwblhau
Atgyweirio'r wal o gerrig sychion ar Goedlan Salway – wedi'i gwblhau
Cilgant Hodges - tynnu'r bolardiau a gwneud gwaith atgyweirio cynnal a chadw ar ben uchaf Cilgant Hodges - hanner wedi'i gwblhau
Atgyweiriadau i'r ffensys ar Lôn yr Angel - yn mynd rhagddo

**Argod**
Cynhelir ymgynghoriad ar gyfer Heol Penylan, Argoed

Mae gwaith ychwanegol yn cynnwys gosod meinciau newydd yn Oakdale, gosod rhwystrau a marciau llinellau yn Nhŷ Sign, Coed Duon, Rhisga, Penllwyn, Cefn-y-pant, Trecelyn,Trinant a Maes-y-ffynnon hefyd yn mynd rhagddo.

Cynhelir ymgyngoriadau fel ail gam o'r rhaglen a fydd yn ystyried prosiectau ar raddfa fwy yn High Meadow, Waunfawr yn Crosskeys, Oakdale, Cefn-y-pant, Trinant, Maes-y-ffynnon a'r Coed Duon, Cefn Fforest, Fairview, Trelyn Uchaf, Trelyn, Pengam a Thŷ Sign yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Ymgysylltir â chymunedau ym Markham ac Argod yn ystod Gwanwyn 2019.

**Q3** Mae dyraniad dangosol o £1,000 fesul cartref Cyngor a gaiff ei ddyranu i bob cymuned. Fodd bynnag, mae Bwrdd Prosiect SACT wedi penderfynu, er y caiff cyllid y Cyfrif Refeniw Tai ei dargedu at sicrhau budd i denantiaid y Cyngor, caiff y cyllid ei ddyrannu yn ôl angen ac asesiadau dichonoldeb. Ymgysylltir â phob cymuned a bydd cyfle ganddynt i dynnu sylw at unrhyw bryderon neu welliannau. Mae Swyddogion Amgylcheddol yn cysylltu ag aelodau wardiau cyn ymgymryd ag unrhyw ymgyngoriadau ac hefyd yn eu gwahodd i unrhyw ddigwyddiadau yn y gymuned.

**C4** Gallant, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu pob agwedd ar raglen SATC mewn ymgynghoriad ag aelodau'r ward, tenantiaid a grwpiau cymunedol ac, fel y gellir dangos drwy'r rhestr o brosiectau uchod, bydd y rhaglen o fudd i denantiaid y Cyngor a thrigolion mewn cymunedau ledled y fwrdeistref sirol gyfan (gweler y rhaglen atodedig).

Daeth y cyfarfod i ben am 7.57p.m.

Cymeradwywyd fel cofnod cywir, ac yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau y cytunwyd arnynt a'u nodi yng nghofnodion y cyfarfod a gynhelir ar 5ed Mehefin 2018, cawsant eu llofnodi gan y Maer.

MAER